YR NUT

Newyddion yr NUT

RHIF 3

Mawrth 2009

Y gymdeithas fwyaf yn Ewrop ar gyfer athrawon

www.teachers.org.uk

Byddwch yn barod i warchod "ond ar adegau prin"!

O Fedi'r 1af 2009 bydd hawl o dan gytundeb gan athrawon i warchod "ond ar adegau prin".

Safbwynt yr NUT yw, o'r dyddiad hwn, ni ddylid gofyn i athrawon warchod ond tan amgylchiadau arbennig.

Gwnewch yn siŵr fod eich ysgol yn paratoi i gwrdd â'i dyletswydd.

Y sefyllfa ar hyn o bryd

Y lefelau gwarchod a argymhellir ar hyn o bryd yw dim mwy a 3.5 awr y flwyddyn mewn ysgol gynradd a dim mwy nag 11 awr y flwyddyn mewn ysgol uwchradd. Os eir dros y terfyn yma yn eich ysgol, cysylltwch â'ch cynrychiolydd NUT o fewn yr ysgol.

Strategaeth Gwarchod mewn Ysgol

Barn yr Undeb yw y dylai penaethiaid sefydlu strategaeth warchod i ddelio ag absenoldebau athrawon sydd wedi'u trefnu a'r rhai heb eu trefnu.

Gwarchod a Chynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch (CALU)

Ni ddylai unrhyw CALU fod wrthi'n addysgu ond o dan oruchwyliaeth athro/awes. Ni ddylai goruchwylydd gwarchod fod yn gwneud unrhyw addysgu gweithredol.

Os ydych chi'n ymwybodol bod gofyn i gynorthwywyr addysgu fynd y tu hwnt i derfynau eu swydd, dylech roi gwybod i gynrychiolydd yr NUT yn yr ysgol neu yr ysgrifennydd adran/cymdeithas.

Rhannu dosbarthiadau

O Fedi'r 1af 2009 dim ond yn achlysurol y dylid gofyn i chi gymryd disgyblion o ddosbarth sydd wedi'i rannu.

Amddiffyn eich hawl i warchod "ond ar adegau prin"

Rydym yn poeni bod rhai awdurdodau lleol yn ceisio cyflwyno terfyn gwarchod sefydlog wedi'i ddiwygio o Fedi'r 1af 2009.

Meddai Christine Blower, Ysgrifennydd Cyffredinol Dros Dro yr NUT:

"Bydd yr Undeb yn ymwrthod yn gryf unrhyw gadw at derfynau oriau sefydlog. Byddai unrhyw derfyn newydd, pa mor isel bynnag , yn cael ei weld yn syth fel lefel gwarchod y gellid ei gyfiawnhau o fewn ysgolion. Bydd yr Undeb yn gwrthwynebu unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth bresennol a allai wanhau eich hawl dan gytundeb i warchod"ond ar adegau prin" o Fedi 2009."

Os ydych chi'n poeni am unrhyw faterion yn ymwneud â gwarchod, cysylltwch â'ch cynrychiolydd ysgol neu ysgrifennydd adran/cymdeithas. Byddan nhw'n barod i'ch cefnogi i herio unrhyw geisiadau afresymol a dod o hyd i atebion i'ch problemau.

Ein hamcan: Unoliaeth Broffesiynol

Ymunwch â'r NUT Mynnwch air â'ch cynrychiolydd ysgol

www.teachers.org.uk

Ffoniwch nawr i ymuno

Llinellau Brys Ymaelodi **0845 300 1669**

neu **020 7380 6369**

Llinell Gymorth Manylion **0845 300 1666**

Cynlluniwyd a chyhoeddwyd gan Adran Strategaeth a Chyfathrebu yr NUT – www.teachers.org.uk Dyluniwyd gan Paragraphics – www.paragraphics.co.uk Printiwyd gan Victoria House Printing Co. Ltd (TU throughout) – 6316w/03/09